

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

9 Awst 2017

Yn Bresennol: Cynghorydd G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd Mrs D Clements, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 1.10pm – 3.00pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

2. Gair o Groeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r cyfarfod i Mr Derek Evans o Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd dymunodd ben blwydd hapus iawn i Ms Chris Gwyther.

3. Cyhoeddiadau

Cyhoeddodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol ar ran yr Awdurdod:

- Cynhadledd PLANED ar y pwnc Gweithio gyda'n gilydd mewn Cymunedau;
- Derbyniad Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Gwledig yn y Senedd ar gyfer Tirweddau'r Dyfodol Cymru pan roddwyd anerchiad diddorol gan yr Athro Terry Marsden;
- Cyfarfod, drwy Gynhadledd Fideo, o Weithgor Tirweddau'r Dyfodol Cymru dan Gadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas;
- Derbyniad gan yr Awdurdod Glo oedd yn pwysleisio eu dymuniad i weithio gydag Awdurdodau drwy'r system gynllunio;
- Gwobrau Busnes Radio Sir Benfro, a
- Sioe Frenhinol Cymru pan roddwyd cyflwyniad ardderchog i'r Gweinidog gan ArboCulture ar ddefnyddio Adfer Gwres Compost i sychu coed tân mewn odyd; prosiect a ariennir gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy yr Awdurdod.

4. Datgan Buddiannau

Datganodd Mr A Archer fuddiant personol ond nid buddiant rhagfarnus yn adroddiad 31/17 ac arhosodd yn y cyfarfod adeg trafod y mater.



5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r cyfarfod cyffredin) a gynhaliwyd ar y 14^{eg} o Fehefin 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 14^{eg} o Fehefin 2017.

6. Materion yn codi o'r cofnodion

(a) Tyddewi yn Ddinas Diwylliant (Eitem 4(a), Cyfarfod Cyffredin: 14 Mehefin 2017)

Dywedwyd bod cais Tyddewi i fod yn Ddinas Diwylliant yn 2021 wedi bod yn aflwyddiannus. Derbyniwyd peth adborth cadarnhaol a rhoddir adborth manylach maes o law. Dymunodd y Prif Weithredwr yn dda i Gyngor Dinas a Sir Abertawe gyda'u cais.

7. Adroddiadau o amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd sawl un o Bwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 10 Mai, 14 Mehefin, 21 Mehefin a 3 Gorffennaf 2017;
- (ii) Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017;
- (iii) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017;
- (iv) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2017, a'r
- (v) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017.

PENDERFYNWYD:

- (a) derbyn adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a
- (b) mabwysiadu adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau, y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, a
- (c) mabwysiadu adroddiad cyfarfod y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, cyn belled â bod y ffaith nad oedd Mrs J James wedi gallu mynychu'r cyfarfod ac wedi cyflwyno ei hymddiheuriad, a bod Dr R Heath Davies wedi mynychu'r cyfarfod yn ei lle, yn cael ei gofnodi.

8. Panel Penodi y Pwyllgor Safonau

Yn yr adroddiad a ystyriwyd yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr Awdurdod ar y 14^{eg} o Fehefin 2017, enwebwyd y Cynghorydd M Williams fel Aelod ar y Panel uchod. Fodd bynnag, ers hynny, roedd wedi'i ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac, o ganlyniad, roedd yn aelod o'r Panel yn rhinwedd y swydd honno yn ogystal. Gofynnwyd felly am enwebiadau Aelod arall yn ei le fel yr Aelod enwebedig.



PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd S Yelland yn cael ei benodi fel yr Aelod enwebedig ar Banel Penodi y Pwyllgor Safonau.

9. Adroddiad ISA260 i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu

Gan ymddiheuro am yr oedi cyn anfon yr adroddiad hwn oherwydd amserlen newydd yr Archwiliad, diolchodd Mr Derek Evans o Swyddfa Archwilio Cymru i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu cymorth wrth gynnal yr Archwiliad, ac am wynebu heriau'r amserlen newydd mor ganmoladwy. Eglurodd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol, gan nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o'r archwiliad. Roedd angen gwneud dau addasiad o natur dechnegol, oedd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ac roedd yr addasiadau hyn wedi'u nodi yn Atodiad 3 i'r adroddiad. Hefyd roedd rhai mân gywiriadau, ond nid oedd y rhain wedi codi unrhyw bryderon gan mai materion o gyflwyno oeddent yn hytrach na meysydd oedd yn peri problemau sylweddol.

Gan droi at y datganiad o gyfrifon 2016/17 oedd yn dod gyda'r adroddiad, roedd yr Aelodau'n bryderus am y gostyngiad yn yr arian craidd a dderbyniodd yr Awdurdod oedd yn gyfystyr â gostyngiad o 25% mewn termau real. Byddai hyn yn dod yn fwyfwy heriol i'r swyddogion ac i'r Aelodau. Roeddent hefyd wedi holi am lywodraethu Cronfa Bensiwn Dyfed, a dywedwyd wrthynt bod hon yn gronfa a reolir yn annibynnol ac ar hyn o bryd roedd yn un o'r cronfeydd oedd yn perfformio orau ar draws y sector cyhoeddus. Ychwanegodd Mr Evans bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflogi gwasanaethau actiwari ymgynghorol, oedd yn edrych ar bob cronfa bensiwn i weld a oedd y tybiaethau a wnaed gan bob cronfa yn rhesymol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd aelodaeth o'r cynllun erioed wedi bod yn risg i'r Awdurdod, ond cedwir golwg ar hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelodau, dywedodd y Rheolwr Cyllid mai'r cynnydd yn y cyllid refeniw a ddangosir yn y tabl crynodeb o'r cyfrifon oedd bod grant ychwanegol wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau penodol, a bod hyn wedi'i egluro'n fanylach yng nghorff y cyfrifon. Diolchodd yr Aelodau i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith yn paratoi'r cyfrifon.

PENDERFYNWYD:

- a) derbyn Adroddiad ISA260 Swyddfa Archwilio Cymru; a
- b) chymeradwyo a llofnodi'r Datganiad o Gyfrifon 2016/17.

10. Blaenoriaethau ar gyfer yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol 2017-18

Dywedwyd bod Cadeirydd yr Awdurdod wedi derbyn llythyr oddi wrth y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol am y



flwyddyn 2017-18 fel y clustnodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y llythyr ynghlwm wrth yr adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau sut fyddai'r blaenoriaethau hyn yn cael eu bwydo i mewn i broses cynllunio corfforaethol yr Awdurdod, a dywedwyd wrthynt bod y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2017/18 wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod fis Mawrth 2017. Serch hynny, byddai'r Awdurdod yn bwrw ymlaen ag unrhyw flaenoriaethau newydd, a byddai adroddiad ar y perfformiad yn cael ei ddwyn gerbron Pwyllgorau Adolygu yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad a'r llythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn cael eu nodi.

11. Cynllun Gwella Rhan 2 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyflawni Amcanion Llesiant 2016/17

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gyhoeddi Cynllun Gwella Rhan 2 erbyn Hydref yr 31^{ain}. Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i nodi ei Amcanion Llesiant ac i ddangos sut oedd yr amcanion hynny yn cyfrannu at saith o Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru.

Bob blwyddyn, roedd yn ofynnol i gyrff gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos y camau a gymerwyd ganddynt o ran cyflawni eu hamcanion. Y ddogfen gerbron yr Aelodau oedd Cynllun Gwella Rhan 2 yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar y camau a gymerwyd yn erbyn ei Amcanion Llesiant.

Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn erbyn y rhaglen waith a gynigir yn y Cynllun Corfforaethol am y flwyddyn 2016/17. Er mwyn lleihau'r adnoddau oedd yn ofynnol, roedd y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi cytuno i weithio i fformat cyffredin o Gynllun Corfforaethol oedd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddogion ar adroddiad da iawn oedd, yn eu barn hwy, yn adroddiad deniadol, diddorol a llawn gwybodaeth oedd yn ddarlun da o nodau'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Gwella Rhan 2 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyflawni Amcanion Llesiant 2016/17.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd P Harries gan adael y cyfarfod yn ystod ystyried yr adroddiad canlynol.]



12. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ddogfen uchod ar gyfer ymgynghori a bod y dyddiad cau derbyn sylwadau wedi'i ymestyn tan yr 28ain o Fedi 2017. Roedd rhannau o'r ddogfen ymgynghori oedd fwyaf perthnasol i waith yr Awdurdod ynghlwm wrth yr adroddiad, gyda'r ddogfen lawn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn nodi pa swyddogion oedd yn ymdrin â pha benodau o'r ddogfen, a gwahoddwyd yr Aelodau i roi sylwadau, os nad yn y cyfarfod ei hun, i'r swyddog perthnasol erbyn yr 16eg o Awst fan hwyraf.

Y bwriad oedd cyflwyno ymateb ar ran y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Dywedwyd yn y cyfarfod er bod y dyddiad cau derbyn sylwadau wedi ei ymestyn ers ysgrifennu'r adroddiad oedd gerbron yr Aelodau, roedd caniatâd yn dal i gael ei geisio i gytuno bod yr ymateb yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr drwy ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod hwn yn gorff mawr iawn o waith, a rhoddwyd rhai sylwadau ganddynt ar yr ymgynghoriad, gan nodi bod diffyg eglurder a manylion mewn rhai meysydd penodol, gan arwain at ddehongli unrhyw gynigion mewn mwy nag un ffordd a chodi mwy o gwestiynau nag atebion.

PENDERFYNWYD dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, drwy ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod, i gyflwyno ymateb i Ddogfen Ymgynghorol Llywodraeth Cymru 'Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy'.

13. Canllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru - Adroddiad Asesu Cam 1 yn Niwawl (Gorffennaf 2017)

Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Penfro a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2014 wedi nodi bod y banc o gerrig mân sy'n amddiffynfa i'r arfordir yn Niwawl yn debygol o gael ei or-lifo yn fwy aml, gan olygu na fydd yn y pen draw yn gynaliadwy i'w gynnal a'i gadw yn ei leoliad presennol o fewn y 10 i 20 mlynedd nesaf. O ganlyniad, roedd y Cyngor wedi comisiynu astudiaeth yn 2016 i archwilio sut allai cymuned Niwawl a'r ardaloedd cyfagos addasu i'r newidiadau a ddaw yn sgîl hyn. Y disgwyl oedd y byddai'r astudiaeth wedi'i chwblhau ddiwedd mis Gorffennaf 2017.

Yn bwydo gwybodaeth i'r astudiaeth gyffredinol oedd yr asesiad o'r opsiynau ail-alinio'r ffordd sydd ar hyn o bryd yn rhedeg yn syth y tu ôl i'r banc cerrig drwy'r pentref, ac ym mis Chwefror 2016, roedd y Cyngor Sir wedi penodi ymgynghorwyr Atkins i wneud Asesiad Canllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru Cam 1 o bedwar opsiwn.

Roedd crynodeb o Adroddiad Asesu Cam 1, a ddaeth i'r casgliad bod dau opsiwn yn haeddu ymchwiliad pellach, yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau



y diwrnod hwnnw. Dywedodd y swyddogion bod y ddau opsiwn hyn yn sefyllfaoedd anodd a bron yn amhosibl i'w cymharu; roedd anfanteision i'r ddau gynnig, gan gynnwys effaith weledol a cholli cynefinoedd â blaenoriaeth. Dywedodd y swyddogion, er bod y Cyngor wedi ystyried llawer o bryderon cychwynnol yr Awdurdod, barnwyd bod angen ymchwilio ymhellach i ba waith – os o gwbl – y gellid ei wneud i liniaru'r pryderon a godwyd, ac a fyddai hynny yn golygu bod angen ail-edrych ar unrhyw un o'r cynigion gwreiddiol. Hefyd roedd ymateb arfaethedig yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'r Adroddiad Asesu wedi'i nodi, a gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau i'r ymateb hwn.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod y sefyllfa'n golygu nad oedd gwneud dim yn opsiwn. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch a ellid cyflawni cynllun, a beth fyddai'r goblygiadau ariannol o ran cynnal-a-chadw yn y dyfodol. Y gobaith oedd y gallai Llywodraeth Cymru roi mwy o ymrwymiad ariannol er mwyn gallu cyflawni'r gwaith. Awgrymwyd hefyd y gallai ail-ddatblygu RNAS Breudeth yn economaidd o bosibl fod yn ffactor hwyluso i gyflawni cynllun addas.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad fel ymateb ffurfiol yr Awdurdod ar Ganllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, Adroddiad Asesu Cam 1 yn Niwglw, Gorffennaf 2017, cyn belled â bod y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod yn cael eu cynnwys.

14. **Eiddo o'r enw 'Woodside' ac 'Avalon', Freshwater East**

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi prynu rhydd-ddaliad ardal fawr o dir yn 2001 yn Freshwater East, sef y 'Burrows', sydd â ffin hir a chymhleth â nifer o berchnogion trydydd parti ar wahân, a nifer ohonynt yn dai preswyl. Nodwyd hanes dau o'r tai hynny, sef Woodside ac Avalon, yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, a dywedwyd bod swyddogion wedi dod i gytundeb 'mewn egwyddor' â pherchnogion y tai hynny i reoleiddio'r llechfeddiant dros deitl rhydd-ddaliad cofrestredig yr Awdurdod am bris nominal o £1, i gynnwys cyfamodau cyfyngu sy'n cyfyngu ar y defnydd a wneir o'r tir yn y dyfodol, ac ymgymeriadau i dalu costau cyfreithiol rhesymol yr Awdurdod o ran dogfennu'r trosglwyddo tir.

Atgoffwyd yr Aelodau bod polisi a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn awdurdodi trosglwyddo tir yn gyfreithiol sy'n eiddo i'r Parc Cenedlaethol i berchnogion eiddo cyfagos mewn achosion lle roedd llechfeddiant yn dod o fewn canllawiau a ddiffiniwyd yn glir, hynny yw, bod y llechfeddiant wedi digwydd ers tro, ar raddfa fach, nad oedd yn cael effaith sylweddol ar amcanion statudol yr Awdurdod, ac nad oedd yn cynyddu gwerth eiddo'r trosglwyddai yn sylweddol.

PENDERFYNWYD, yn unol â'r Pholisi Llechfeddiant a Fabwysiadwyd, cymeradwyo trosglwyddo tua 30 metr sgwâr a 110 metr sgwâr o dir o fewn teitl cofrestredig yr Awdurdod i berchnogion Avalon a Woodside yn y drefn honno.

15. **Cynllun Tanddaearu Ceblau Trydan, Parrog Trefdraeth**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cwmni Western Power Distribution (WPD), yn dilyn llwyddiant ei fenter i danlinellu pŵer yn ystod y cyfnod 2010-15, wedi ymestyn y cynllun a'i ymgorffori yn eu cynllun busnes presennol drwy ddyrannu £1.3m arall i ariannu'r gwaith o danddaearu'r rhannau hynny



o'u rhwydwaith cyflenwad trydan uwchben y ddaear y barnwyd oedd yn fwyaf niweidiol i rinweddau arbennig pedwar o'r tirweddau gwarchoddedig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr a Dyffryn Gwy, a Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro.

Roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i gyflwyno pump cynllun gwella tirwedd yn ystod y cyfnod 2010-15, ac roedd tri chynllun arall eisoes wedi'u sicrhau o dan y fenter ariannu gyfredol ar gyfer 2015-23.

Roedd tanddaearu ceblau ac adleoli polion wedi bod yn broblem a amlinellwyd gan y gymuned yn y ddogfen Cynigion Ardal Gadwraeth Parrog Trefdraeth, gan y bernid eu bod yn cael effaith weledol andwyol sylweddol ar yr amgylchedd adeiledig. Roedd swyddogion yr Awdurdod bellach wedi clustnodi cynllun, a gymeradwywyd gan Banel Western Power ar Fentrau Tanddaearu drwy weithio ar y cyd â BT Openreach, i gael gwared â'u rhwydweithiau presennol o wifrau uwchben, a disodli'r rhwydweithiau hynny â chysylltiadau tanddaear. Yn amodol ar gael unrhyw ganiatâd statudol/ cyfreithiol fydd ei angen, gallai'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod y cyfnod 2018/19.

Yn wahanol i gynlluniau blaenorol lle roedd BT Openreach wedi ariannu cost lawn eu gwaith yn wirfoddol, y tro hwn, roedd eu cymorth yn amodol ar y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu £14,000 tuag at gyfanswm costau BT Openreach oedd wedi'i amcangyfrif yn rhyw £33,000. Roedd swyddogion o'r farn na fyddai cynllun WPD a ariennir yn allanol yn y lleoliad hwn (fyddai'n gadael y rhwydwaith BT Openreach uwchben presennol yn ei le) yn cyrraedd y lefel ofynnol o fudd i'r dirwedd. Eglurodd y Swyddogion y gellid talu'r cyfraniad o'r gyllideb bresennol ac na fyddai'r cyfraniad yn codi pe bai cost y cynllun yn cynyddu.

Llongyfarchodd yr Aelodau y Swyddogion ar y nifer o gynlluniau a ddygwyd ymlaen hyd yn hyn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo barn y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad a'r papur meini prawf, ac awdurdodi bod eu gwaith parhaus tuag at sicrhau cyflawni'r cynllun tanddaearu yn Parrog Trefdraeth i gynnwys cyfraniad ariannol gan yr Awdurdod tuag at gostau'r cynllun o £14,000.

16. Aelodaeth Pwyllgorau

Atgoffwyd yr Aelodau y dywedwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2017 y byddai ystyried aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei gadarnhau unwaith y byddai Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a Phwyllgorau perthnasol eraill wedi'u penodi.



Gan fod yr apwyntiadau angenrheidiol bellach wedi'u gwneud, roedd yr adroddiad yn awgrymu cyfansoddiad ar gyfer y Pwyllgorau hyn. Gan ddatblygu cyfansoddiad blaenorol y Pwyllgorau hyn, nodwyd bod rhai llefydd gwag a gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer y llefydd hyn.

Er bod rhai o'r llefydd gwag wedi'u llenwi, roedd dau le yn dal yn wag, a chytunwyd bod manylion y llefydd hyn yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau hynny o'r Awdurdod nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw.

PENDERFYNWYD bod cyfansoddiad y Pwyllgorau a nodir isod yn cael ei gadarnhau fel a ganlyn, cyn belled â bod e-bost yn cael ei anfon at yr Aelodau hynny nad oeddent yn bresennol i ofyn am enwebiadau ar gyfer y llefydd oedd yn dal yn wag.

Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

Mrs G Hayward, Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol
Mr A Archer, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Archwilio ac Adolygu
Gwasanaethau Corfforaethol
Cynghorydd M James
Cynghorydd A Wilcox
Lle gwag i Gynghorydd

Pwyllgor Cwynion

Cynghorydd M Williams, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio ac Adolygu
Gwasanaethau Corfforaethol
Ms C Gwyther
Dr R Heath-Davies
Cynghorydd PJ Morgan
Cynghorydd D Clements

Pwyllgor Apeliadau

Mr AE Sangster, Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol
Cynghorydd R Owens, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu
Cynghorydd P Harries
Mrs J James
Lle gwag i Gynghorydd

17. Swyddog Monitro

Dywedwyd bod Swyddog Monitro presennol yr Awdurdod wedi sôn ei fod yn dymuno ymddeol ddiwedd mis Tachwedd 2017. Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn nodi'r opsiynau ar gyfer penodi Swyddog Monitro newydd a hefyd yn argymhell ychwanegiadau i'r fanyleb person presennol am y swydd i gynnwys dyletswyddau Swyddog Diogelu Data o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data sydd yn yr arfaeth, a bod sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer y swydd.



Er bod penodi Swyddog Monitro 'hyd braich' yn cal ei gymeradwyo, awgrymodd rhai Aelodau y gallai rhannu swydd gyda Chyngor Sir Penfro fod yn opsiwn arall. Dywedodd y swyddogion y byddent yn gwneud y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r cyfle pan hysbysebir y swydd. Hefyd bu peth trafodaeth ynglŷn â'r angen i sgiliau Cymraeg fod yn hanfodol, a dywedodd y Swyddog Monitro presennol bod y gallu i siarad Cymraeg wedi bod yn hynod o fuddiol iddo yn ystod ei amser yn y swydd.

PENDERFYNWYD:

- a) cytuno i gychwyn ar y broses recriwtio ar gyfer y swydd Swyddog Monitro annibynnol 'hyd braich', gyda golwg ar gael person â chymwysterau priodol yn y swydd ar Ragfyr y 1^{af} 2017;
- b) argymhell i'r Pwyllgor Personél ddiwygio'r fanyleb person ar gyfer y swydd i gynnwys:
 - (i) dyletswyddau Swyddog Diogelu Data o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a
 - (ii) bod sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer y swydd, a
- c) dirprwyo cynnal cyfweliad(au) am y swydd Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Personél, a bod argymhelliad i benodi yn cael ei gyflwyno wedyn i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gadarnhau.

18. Digwyddiadau yn y Dyfodol

Hysbysodd y Prif Weithredwr yr Aelodau y byddai'r Awdurdod yn cynnal digwyddiad yn Sioe'r Sir ddydd Mercher yr 16^{eg} o Awst am 10 y bore. Roedd croeso i unrhyw Aelod fyddai'n bresennol yn y Sioe y diwrnod hwnnw ddod i'r digwyddiad. Hefyd atgoffodd yr Aelodau bod Gweithdy wedi'i drefnu i'w gynnal ddydd Mercher Medi y 13^{eg} pan fyddai'r Bwrdd lechyd yn rhoi gwybodaeth am ddau ymgynghoriad oedd ganddynt ar y gweill. Byddai rhagor o fanylion ar gael maes o law.

NODWYD.

